OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 2217 (Cy.193)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Rheoleiddiwr Cyrff Cymwysterau Cyffredinol a Chymwysterau Perthnasol) (Cymru) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *6 Medi 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *7 Medi 2010* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Hydref 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 96(10) a 97(3) o Deddf Cydraddoldeb 2010(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Rheoleiddiwr Cyrff Cymwysterau Cyffredinol a Chymwysterau Perthnasol) (Cymru) 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 1 Hydref 2010 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

### Y rheoleiddiwr priodol

**2.** Mae Gweinidogion Cymru wedi eu rhagnodi fel y rheoleiddiwr priodol mewn perthynas â chorff cymwysterau sy'n rhoi cymwysterau yng Nghymru.

### Cymwysterau Perthnasol

**3.** Mae'r cymwysterau a restrir yn yr Atodlen wedi eu rhagnodi'n gymwysterau perthnasol mewn perthynas â rhoi cymwysterau yng Nghymru.

(**1**) 2010 p.15. Cychwynnodd Gorchymyn Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cychwyn Rhif 1) 2010 (O.S. 2010/1736) adrannau 96 a 97 ar 6 Gorffennaf 2010 i'r graddau y maent yn rhoi pŵer i wneud is-Deddfwriaeth neu ganllawiau neu'n ymwneud â'r pŵer i wneud hynny.

*Leighton Andrews*
Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, un o Weinidogion Cymru

6 Medi 2010

## YR ATODLEN

Rheoliad 3

**1.** Dyfarniadau Uwch Estynedig

**2.** Cymwysterau tystysgrif lefel mynediad

**3.** Cymwysterau Mathemateg Annibynnol

**4.** Sgiliau Gweithredol

**5.** Tystysgrif Addysg Gyffredinol lefel A (U ac UG)

**6.** Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

**7.** Y Fagloriaeth Ryngwladol

**8.** Sgiliau Allweddol a Sgiliau Hanfodol Cymru

**9.** Cymwysterau Prif Ddysgu a Phrosiect

**10.** Tystysgrif Graidd Cymhwyster Bagloriaeth Cymru

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi mai'r rheoleiddiwr priodol at ddibenion adran 96 o Deddf Cydraddoldeb 2010 yw Gweinidogion Cymru. Caiff y rheoleiddiwr priodol bennu materion nad ydynt yn cael eu dal gan y ddyletswydd sydd ar gyrff cymwysterau o dan yr adran honno i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi hefyd mai'r cymwysterau a restrir yn yr Atodlen yw'r cymwysterau perthnasol at ddibenion adrannau 96 a 97 o Deddf Cydraddoldeb 2010.